

Cyngor Sir Ddinbych

Fformiwla Ariannu Ysgolion gyfer Ysgolion Prif Ffrwd ac
Ysgolion Arbennig

2018-2019


Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



Fformiwla Ariannu Ysgolion Sir Ddinbych 2018-2019

Elfen o Weithgaredd Strategol	Sbardunau Costau'r Gweithgaredd			
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Sylwadau
Cwricwlwm	Disgyblion - £1,766 y disgybl	Disgyblion CA3 - £3,358 y disgybl Disgyblion CA4 - £4,198 y disgybl	Lleoedd Arfaethedig, Cyfartaledd 3 blynedd - Disgybl band 1 - £16,304 Disgybl band 2 - £14,674 Disgybl band 3 - £12,228 Disgybl band 4 - £10,598 Disgybl band 5 - £8,152	Rhennir y dyraniad cwricwlwm yn bennaf ar niferoedd disgyblion safonol ond pwysolir hwy'n wahanol ar draws y gwahanol gyfnodau allweddol yn y sector Uwchradd. Mae Ysgolion Arbennig yn derbyn dyraniadau yn seiliedig ar y lleoedd cyfartalog y cynlluniwyd ar eu cyfer dros y 3 blynedd diwethaf. Bwriad hyn yw sefydlogi amrywiadau mewn niferoedd disgyblion ar draws y 2 ysgol gan ganiatáu cynllunio mwy cywir.
	Disgyblion BI 1 i 6 - £2.82 y disgybl Lwmp Swm - £720 yr ysgol Ni fydd ysgolion canol yn derbyn y cyfandaliad hwn	Disgyblion BI 7 i 11 - £3.02 y disgybl Lwmp Swm - £720 yr ysgol	Disgyblion BI 1 i 11 - £2.84 y disgybl Lwmp Swm - £720 yr ysgol	Mae'r dyraniad hwn yn gyson gyda'r Fformiwla a gutynwyd yng Ngogledd Cymru ar gyfer ariannu darpariaeth Addysg Awyr Agored. Fodd bynnag, nid yw'r dyraniad hwn wedi ei neilltuo i'r diben hwnnw.
	CA1, disgyblion meithrin yn unig - £689 y disgybl CA1, disgyblion derbyn yn unig - £1,367y disgybl CA1, disgyblion blwyddyn 1 yn unig - £551 y disgybl CA1, disgyblion blwyddyn 2 yn unig - £551 y disgybl CA2, disgyblion blwyddyn 3 yn unig - £551 y disgybl		CA1, disgyblion meithrin yn unig - £5,754 y disgybl CA1, disgyblion derbyn yn unig - £1,828 y disgybl CA1, disgyblion blwyddyn 1 yn unig - £2,935 y disgybl CA1, disgyblion blwyddyn 2 yn unig - £2,066 y disgybl	Mae disgyblion CA1 yn denu mwy o arian tuag at y Cyfnod Sylfaen. Felly mae'r dyraniad CA1 yn adlewyrchu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a phwysolir ef ar draws y gwahanol grwpiau blwyddyn yn seiliedig ar anghenion staffio. Ar y funud mae'r arian yn grant penodol gan Lywodraeth Cymru ond gall mewn blynyddoedd i ddod fod yn rhan o Setliad Refeniw'r Awdurdod Lleol. Yn y sector cynradd mae ychwanegiad arall ar gyfer disgyblion blwyddyn 3 er mwyn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â phontio o flwyddyn 2 i flwyddyn 3.

	<p>Lwmp-swm - £49,475 yr ysgol ac arian ychwanegol wedi ei bwysoli fel a ganlyn:</p> <p>51 i 100 £13,472 101 i 250 £20,208 >250 £26,944</p> <p>Ni fydd ysgolion canol yn derbyn y dyraniadau hyn</p>	<p>Lwmp-swm - £49,475 wedi ei bwysoli yn ôl bob ysgol:</p> <p><700 - 5.00 701 i 900 - 4.00 901 i 1200 - 3.00</p>		<p>Mae'r dyraniad lwmp-swm yn rhoi ffrwd ariannol sefydlog a fydd yn cefnogi'r gost o ddarparu'r cwricwlwm.</p> <p>Bydd Ysgolion Cynradd yn derbyn dyraniad penodedig yn seiliedig ar gostau cyflog cyfartalog ar draws ysgolion gyda dyraniad ychwanegol wedi'i bwysoli tuag at gostau trothwy.</p> <p>Bydd Ysgolion Uwchradd yn derbyn dyraniad penodedig wedi ei bwysoli yn ôl maint yr ysgol. Mae ysgolion llai yn derbyn mwy er mwyn adlewyrchu'r realiti fod darparu'r cwricwlwm mewn dosbarthiadau llai yn anoddach yn yr ysgolion hyn.</p>
		<p>Dyraniadau ôl-16 yn seiliedig ar y wir ddarpariaeth</p>		<p>Mae cyllid ôl-16 ar gyfer Ysgolion Uwchradd wedi cael ei ddyrannu i'r gwerth o gyfanswm y grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru (gan dynnu 3% i'w gadw'n Ganolog). Dim ond disgyblion ôl-16 fydd yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo'r dyraniadau hyn.</p> <p>Mae'r dyraniadau arfaethedig yn y sector Uwchradd yn gyson â'r dull newydd a gytunwyd o ddyrannu drwy'r wir ddarpariaeth.</p> <p>Mae AAA (SEN) mewn Ysgolion Arbennig nawr yn rhan or RSG (Ddim bellach yn grant) ac yn cael ei ddyrannu fel y cyfartaledd lleoedd 3 blynedd.</p>
	<p>Cyferwerth ag amser llawn, Holl staff- £779 bob staff cyferwerth ag amser llawn</p> <p>Cyferwerth ag amser llawn, athrawon yn unig - £4,593 bob athro cyferwerth ag amser llawn</p>	<p>Cyferwerth ag amser llawn, Holl Staff - £779 bob staff cyferwerth ag amser llawn</p> <p>Cyferwerth ag amser llawn, Athrawon yn unig - £1,516 bob athro cyferwerth ag amser llawn</p>	<p>Cyferwerth ag amser llawn, Holl Staff - £779 bob staff cyferwerth ag amser llawn</p> <p>Cyferwerth ag amser llawn, Athrawon yn unig - £3,055 bob athro cyferwerth ag amser llawn</p>	<p>Mae'r dyraniad Cyferwerth ag Amser Llawn yn galluogi gwahaniaeth rhwng arian niferoedd disgyblion safonol pan fo'r costau a achosir yn fwy perthnasol i'r nifer o staff yn hytrach na'r nifer o ddisgyblion. Byddai hyn o gymorth ar gyfer costau megis Mamolaeth, Salwch a Baich Gwaith.</p> <p>Mae dyraniadau baich gwaith yn seiliedig ar gostau athro UPS 1 er nid oes disgwyl i hwn ddelio ag amser dysgu ar y lefel hwnnw yn unig. Lleiheir dyraniadau Uwchradd o 2/3 i adlewyrchu fod gan athrawon amser digyswllt wedi ei amserlennu i'w wythnos gweithio yn barod.</p> <p>Dyrennir cyfartaledd o ddyraniadau Cynradd ac Uwchradd i Ysgolion Arbennig ar gyfer Cyferwerth ag Amser Llawn.</p>

	Cyllid Maint Dosbarth – yn unol â'r Polis			 Infant and Junior Class Size Funding Fir
	Lwmp-swm Undeb (ble bo'n berthnasol) - £110bob hanner diwrnod	Lwmp-swm Undeb (ble bo'n berthnasol) - £110 bob hanner diwrnod	Lwmp-swm Undeb (ble bo'n berthnasol) - £110 bob hanner diwrnod	I'r Ysgolion hynny ble bo hi'n berthnasol, byddant yn derbyn dyraniad lwmp-swm sydd gyfwerth â'r gost gyfartalog o gyflenwi amser ysgrifennydd undeb hanfodol. Dyrennir ef ar gyfartaledd i'r amser cyfan sydd wedi ei gytuno i'r aelod o staff gael ei ryddhau yn ôl cytundeb Ysgrifennydd yr Adran Undeb Leol. Gwarchodir unrhyw gytundebau sydd wedi cytuno swm arall dros oes y cytundeb hwnnw.
Amddifadedd Cymdeithasol	Hawl i Brydau Ysgol am Ddim - £115 bob disgybl PYD	Hawl i Brydau Ysgol am Ddim - £115 bob disgybl PYD	Hawl i Brydau Ysgol am Ddim - £115 bob disgybl PYD	Mae'r dyraniad yn adlewyrchu'r angen rheoliadol i addasu cyfran y gyllideb yn seiliedig ar ffactorau amddifadedd. Y cynnig yw cadw Prydau Ysgol am Ddim fel y sbardun cost ar gyfer amddifadedd cymdeithasol sy'n gyson gydag agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddyrannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Byddai'r dyraniad yn rhoi 10% ychwanegol i ddyraniad presennol Llywodraeth Cymru o £1,150 y disgybl o'r GAD.
Anghenion Dysgu Ychwanegol			Lwmp swm - £600 bob plentyn sy'n derbyn gofal	Bydd dyraniad pellach o lwmp-swm penodedig yn cael ei ddyfarnu i unrhyw ysgol sydd â phlentyn sy'n derbyn gofal ar y gofrestr uwchradd ac arbennig. Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad Sir Ddinbych fel Rhiant Corfforaethol i Blant sy'n derbyn Gofal. Cesglir y data ar gyfer y dyraniad hwn yn uniongyrchol gan ysgolion a bydd yn gynrychioliadol o'r holl symudiadau yn ystod y flwyddyn.
	Lwmp Swm - £2,817 yr Ysgol Ni fydd ysgolion canol yn derbyn dyraniad hwn	Lwmp Swm - £2,817 yr Ysgol		Mae hwn yn cydnabod y gost o dalu lwfans ADY ym mhob ysgol. Nid yw'n berthnasol i Ysgolion Arbennig gan fod eu dyraniad cwricwlwm yn ôl disgybl wedi ei bwysoli'n barod i adlewyrchu hyn.

	<p>Disgyblion ac anghenion eithradol neu drosglwyddiad reoledig - £8,509 y disgybl</p> <p>Disgyblion ac anghenion uwch - £3,000 y disgybl</p> <p>Darpariaeth adnoddau – Yn cael ei gyllido ar ragolwg cost y ddarpariaeth</p>	<p>Disgyblion ac anghenion eithradol neu drosglwyddiad reoledig - £14,656 y disgybl</p> <p>Disgyblion ac anghenion uwch - £618 y disgybl</p>		<p>Mae AAA yn cael ei gyllido gan ddefnyddio data wedi ei safoni ar gyfer angen eithradol, trosglwyddiad reoledig a disgyblion ac anghenion uwch.</p> <p>Mae disgwyl y bydd 5% o'r dyraniad cwricwlwm sylfaenol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion gyda lefel is o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r dyraniad hwn er mwyn cefnogi disgyblion gyda lefel uwch o angen o fewn ysgolion.</p> <p>Ni ddyfernir arian ychwanegol i Ysgolion Arbennig ar gyfer ADY gan fod eu dyraniad cwricwlwm yn ôl disgybl wedi ei bwysoli'n barod i adlewyrchu hyn.</p>
<p>laith Gymraeg</p>	<p>Ategiad fesul disgybl - £134 fesul disgybl wedi'i asesu trwy gyfrwng y Gymraeg (nifer disgyblion cyfartalog 3 blynedd)</p> <p>Mae ysgolion categori 2 yn derbyn 10% o'r swm hwn (£13 fesul disgybl) ar gyfer y disgyblion hynny na aseswyd yn Gymraeg (nifer disgyblion cyfartalog 3 blynedd)</p> <p>Mae ysgolion categori 4 yn derbyn 10% o'r swm hwn (£13 fesul disgybl) am yr holl ddisgyblion ar y gofrestr (nifer disgyblion cyfartalog 3 blynedd)</p>	<p>Ategiad fesul disgybl - £130 fesul disgybl wedi'i asesu trwy gyfrwng y Gymraeg</p>		<p>Mae'r elfen laith Gymraeg wedi cael ei gytuno gan y Grŵp Strategol Gymraeg.</p> <p>Mae ystyriaeth wedi ei roi i'r achosion hynny lle mae costau ychwanegol yn cael eu codi ar gyfer darparu Dwy Ffrwd neu ddarpariaeth Gymraeg yn hytrach na darparu cwricwlwm arferol Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm safonol. Byddai'r costau hyn yn rhan o'r elfen Cwricwlwm yn hytrach na'r elfen laith Gymraeg. Bwriad yr ategiad laith Gymraeg yw i gefnogi ysgolion sy'n mynd i gostau ychwanegol o ganlyniad i redeg cyrsiau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.</p> <p>Defnyddir diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen hon:</p> <p><u>Cynradd</u> Cat 1. Cyfrwng Gymraeg Cat 2. Dwy Ffrwd Cat 3. Cyfrwng Gymraeg ond gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg Cat 4. Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg Cat 5. Cyfrwng Saesneg yn bennaf</p> <p><u>Uwchradd:</u> Cat 1. Cyfrwng Gymraeg Cat 2. Darpariaeth Ddwieithog Cat 3. Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg Cat 4. Cyfrwng Saesneg yn bennaf</p>

	Lwmp-swm - £2,377 ar gyfer pob ysgol categori 1, 2 a 3	Lwmp Swm – £49,641 ar gyfer ysgolion categori 1, 2 a 3 Dinas Bran - £187,110 Brynhyfryd - £279,520 Glan Clwyd - £65,644		Mae'r dyraniad lwmp swm yn cael ei ddyrannu i ysgolion categori 1, 2 a 3 yn unig lle bo'n berthnasol a chafodd ei gytuno gan y Grŵp Strategol Cymraeg. Caiff y costau hyn eu teilwra i bob ysgol unigol gan ei fod yn cael ei gydnabod bod gan bob un anghenion gwahanol.
Adeiladau	Cost Wirioneddol Trethi Busnes / Rhent	Cost Wirioneddol Trethi Busnes / Rhent	Cost Wirioneddol Trethi Busnes / Rhent	Bydda yn cael eu cyllido ar sail rhagolwg costau ar gyfer holl ysgolion yn seiliedig ar brisiad blynyddol NNDR. Mae cyllideb rent yn seiliedig ar ragolwg ar gyfer y flwyddyn. Ni fydd newidiadau yn cael eu gwneud i unrhyw dan neu orwariant ar ddiwedd y flwyddyn.
	Arwynebedd Llaur - £34 bob m ² (£33 bob m ² ar gyfer Ysgolion GG)	Arwynebedd Llaur - £33 bob m ² (£31 bob m ² ar gyfer Ysgolion GG)	Arwynebedd Llaur - £35 bob m ²	Mae'r dyraniad adeiladau yn werth uned generig a fydd yn cefnogi pob cost sy'n ymwneud ag adeiladau. Cyfrifwyd ef gan ddefnyddio costau gwariant wedi eu meincnodi â gwerthoedd uned ddangosol ar gyfer egni. Mae'r costau is yn y sector Uwchradd yn adlewyrchu'r raddfa fwy o economïau sy'n codi o gostau gofalwr ar gyfer pob m ² (hynny yw 1 gofalwr ar gyfer pob ysgol uwchradd yn erbyn 1 gofalwr mewn ysgol gynradd).
Cynaliadwyedd	Lwmp-swm – lwmp-swm o £49,475 wedi ei bwysoli os yw ysgol wedi ei chyfuno ar 2 safle: 0 i 105 disgybl - 1.50 106 i 300 disgybl - 0.50 300+ disgybl - 0.25	Lwmp-swm – lwmp-swm o £49,475 wedi ei bwysoli os yw ysgol wedi ei chyfuno ar 2 safle:		Bydd unrhyw ysgol sydd wedi eu cyfuno yn elwa o dderbyn dyraniad cydnabyddedig i gefnogi'r anawsterau a etifeddir wrth redeg 2 safle. Mae hyn yn cynnwys gweinyddiaeth a'r cynnydd mewn costau staffio a achosir o ganlyniad i gyfuno'r 2 ysgol. Ariennir yr ysgol fel 1 yn hytrach na 2 o dan y model cyfuno felly byddant yn derbyn llai o arian yn y fformiwla nag ysgolion wedi eu ffederaleiddio, felly dyna pam fod cynnydd yn y lwmp-swm.
	Lwmp-swm - £3,000 ar gyfer ysgol wedi eu ffederaleiddio			Bydd unrhyw ysgol sydd wedi ei ffederaleiddio yn elwa o dderbyn dyraniad i gefnogi'r anawsterau a etifeddir wrth reoli 2 safle, o ran gweinyddiaeth. Bydd yr ysgolion yn parhau i gael eu hariannu fel 2 ysgol ond rheolir hwy gan un Pennaeth ac un Corff Llywodraethol.
	Disgyblion Symudol - £200 y disgybl os yw % y symudiad > 10%	Disgyblion Symudol - £200 y disgybl os yw % y symudiad > 10%		Dyfernir arian ychwanegol i ysgolion sydd â dros 10% o gyfanswm eu nifer disgyblion yn rai symudol. Dyfernir yr arian yn

			<p>ôl y gyfradd a ddangosir ar gyfer pob disgybl sydd dros y trothwy 10%.</p>
	<p>Y disgybl - £1,086 ychwanegol y disgybl mewn ysgolion bach (hynny yw, ysgolion gyda chyfanswm disgyblion < 70).</p>		<p>Mae hwn yn cymryd lle'r amddiffyniad ysgolion bach ac yn rhoi arian ychwanegol i'r arian a ddyrennir ar gyfer pob disgybl (ble bo'n briodol) o fewn y pwysiad a ddangosir.</p> <p>Cyfrifir y gwerth fel 50% o werth yr uned sy'n seiliedig ar ddisgyblion a 50% o werth yr uned sy'n seiliedig ar ddisgyblion blwyddyn 1 CA1.</p> <p>Mae'r dyraniad ychwanegol yn cael ei gymhwyso yn unig i'r gwahaniaeth rhwng gwir nifer y disgyblion ar y gofrestr a'r trothwy perthnasol fel y nodir isod.</p> <p>Llai na 50 o ddisgyblion, dyraniad ychwanegol yn cael ei gapio ar 50. Llai na 55 o ddisgyblion ond mwy na 50, dyraniad ychwanegol yn cael ei gapio ar 55. Llai na 60 o ddisgyblion ond mwy na 55, dyraniad ychwanegol yn cael ei gapio ar 60. Llai na 65 o ddisgyblion ond mwy na 60, dyraniad ychwanegol yn cael ei gapio ar 65. Llai na 70 o ddisgyblion ond mwy na 65, dyraniad ychwanegol yn cael ei gapio ar 70.</p> <p><u>Felly er enghraifft:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Os oes gan ysgol 62 o ddisgyblion byddant yn cael dyraniad ychwanegol o $(65-62) \times £1,086 = £3,258$ • Os oes gan ysgol 45 o ddisgyblion byddant yn cael dyraniad ychwanegol o $(50-45) \times £1,086 = £5,430$
		<p>Y disgybl - Cyfanswm dyraniad FFCY ar gyfer 2017/18: £200k</p>	<p>Ar gyfer cynnaladwyeddd ysgolion gyda >50% o ddisgyblion o tu allan i'r Sir, gall achos busnes ei gyflwyno i'w ystyried gan Fforwm Cyllid Ysgolion Sir Ddinbych yn dangos y pwysau ariannol perthnasol a rhesymau.</p>

	Cefnogaeth Gyfleuster Oddi ar y Safle - £50 yr wythnos x 40 wythnos	Cefnogaeth Gyfleuster Oddi ar y Safle - £200 yr wythnos x 40 wythnos		Mae hwn yn gyfraniad tuag at y costau a achosir gan ysgolion nad oes ganddynt gyfleusterau digonol i gefnogi elfennau statudol y cwricwlwm ac efallai y bydd rhaid iddynt deithio i ysgolion/safleoedd eraill i ddefnyddio cyfleusterau e.e. Ymarfer Corff
			Costau cyllidebol gwirioneddol lleoliadau preswyl	Ariennir pob lle ar sail costau cyllidebol sy'n gyson â'r modd yr ydym yn adennill costau lleoliadau disgyblion y tu allan i'r sir. Bydd hwn yn destun adolygiad ar wahân oherwydd natur y cyfleuster a lefel angen y disgyblion.
Cefnogaeth Busnes	Lwmp-swm - £5,797 <i>Ni fydd ysgolion canol yn derbyn dyraniad hwn</i> Fesul Disgybl - £8.17	Lwmp-swm - £41,278 <i>Ni fydd ysgolion canol yn derbyn dyraniad hwn</i> Fesul Disgybl - £12.32	Lwmp-swm - £19,048 <i>Ni fydd ysgolion canol yn derbyn dyraniad hwn</i> Fesul Disgybl - £35.21	Mae'r dyraniadau lwmp swm wedi ei pwyso yn adlewyrchu cost y prosiect Adeiladu Gallu Mewn Ysgolion ac maent yn cyd-fynd â chost darparu cefnogaeth Busnes a Rheolaeth Gyllid ym mhob ysgol.
	Lwmp Swm - £5,329 <i>Ni fydd ysgolion canol yn derbyn dyraniad hwn</i>	Lwmp Swm - £10,714	Lwmp Swm - £10,714	Dyfarwyd dyraniadau lwmp-swm i gydnabod gwasanaethau sy'n codi tâl ar sail swm benodedig. Cyfrifir y swm fel meincnod yn erbyn costau Gwasanaethu Masnach Sir Ddinbych.
	Y disgybl - £101	Y disgybl - £101	Y disgybl - £101	Dyfarwyd dyraniadau ar gyfer bob disgybl er mwyn cydnabod y gwasanaethau sy'n codi tâl ar sail bob disgybl. Cyfrifir y swm fel meincnod yn erbyn costau Gwasanaethau Masnach Sir Ddinbych.
	Cyfrif Pennau - £162 pob staff	Cyfrif Pennau - £162 pob staff	Cyfrif Pennau - £162 pob staff	Dyfarwyd dyraniadau cyfrif pennau i gydnabod y gwasanaethau sy'n codi tâl ar sail cyfrif pennau. Cyfrifir y swm fel meincnod yn erbyn costau Gwasanaethau Masnach Sir Ddinbych.
	Clerc y Llywodraethwyr - £800 pob ysgol <i>Ni fydd ysgolion canol yn derbyn dyraniad hwn</i>	Clerc y Llywodraethwyr - £800 pob ysgol	Clerc y Llywodraethwyr - £800 pob ysgol	Meincnodwyd hwn yn erbyn costau Clercio drwy gydol Cymru gyfan. Mae'r graddau wedi newid ar gyfer 2016-17felly bydd y fformiwla yn cael ei newid i adlewyrchu hyn yn 2017-18.

	Prydau Ysgol am Ddim - £284 bob disgybl sydd â hawl PYD	Prydau Ysgol am Ddim - £284 bob disgybl sydd â hawl PYD	Prydau Ysgol am Ddim - £284 bob disgybl sydd â hawl PYD	Mae hwn yn adlewyrchu'r gost o dalu am Brydau Ysgol am Ddim ar gyfer y disgyblion hynny sydd â hawl i bryd.
		Cost Wirioneddol Canolfannau Hamdden		Mae hwn yn adlewyrchu cost wirioneddol talu am gytundeb Defnydd Deuol ar gyfer defnyddio Canolfannau Hamdden.
	Cost Wirioneddol Yswiriant Adeiladau ac Atebolrwydd	Cost Wirioneddol Yswiriant Adeiladau ac Atebolrwydd	Cost Wirioneddol Yswiriant Adeiladau ac Atebolrwydd	Bydd pob ysgol yn cael cyllideb lawn i ddelio â'r gost o dalu am yswiriant adeiladau ac atebolrwydd.
	Lwmp Swm - £4,000		Lwmp Swm - £15,000	Dyma gyfraniad Lwmp-Swm tuag at gost rhedeg Clwb Brecwast.
	Y disgybl - £30 fesul disgybl LI/AI			Dyma gyfraniad fesul disgybl tuag at gost rhedeg Clwb Brecwast.
	Lwmp Swm - £1,060			Dyma gyfraniad tuag at gost Nofio Cynradd